**Cylch Gorchwyl Pwyllgor:**

**GRŴP GWEITHREDOL Y GYMRAEG**

<u>Adrodd i:</u> Gweithrediaeth y Brifysgol

<u>Amlder:</u> 3 gwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Tachwedd 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Tachwedd 2022; i'w adolygu nesaf: Tachwedd 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Cyfarwyddwr y Gymraeg, Diwylliant a Chysylltiadau Allanol (Cadeirydd)<br>• Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg<br>• Pennaeth Gwasanaethau Adnoddau Dynol<br>• Pennaeth Datblygu Sefydliadol a Dysgu<br>• Cyfarwyddwr, Dysgu Cymraeg<br>• Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg<br>• Swyddog Datblygu'r Gymraeg, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg<br>• Un Rheolwr Cyfadran<br>• Llywydd UMCA<br>• Cadeirydd Cangen PA o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br><br>10 aelod.<br><br>Cworwm:<br><br>5 aelod.<br><br>Gellir gwahodd swyddogion eraill o'r Brifysgol fel sy'n briodol i fynychu cyfarfodydd yn unol â doethineb y Cadeirydd. | Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg |

<u>Cylch gwaith:</u>

Mae Grŵp Gweithredol y Gymraeg yn arwain ac yn monitro Strategaethau a pholisïau hyrwyddo'r Gymraeg y Brifysgol ac yn adrodd ar gydymffurfiaeth ar draws y Brifysgol â'r Safonau Iaith Gymraeg statudol gan ddatblygu hyfforddiant a chyngor addas.

---

<u>Cylch Gorchwyl:</u>

1. Paratoi a gweithredu Strategaethau a pholisïau hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer y Brifysgol i'w chyflwyno er cymeradwyaeth Gweithrediaeth y Brifysgol, neu gan y Cyngor trwy Weithrediaeth y Brifysgol.
2. I ystyried ac argymell cymeradwyaeth gan Weithrediaeth y Brifysgol, neu gan y Cyngor trwy Weithrediaeth y Brifysgol:
    a. Polisïau i sicrhau cydymffurfiaeth sefydliadol â Safonau'r Iaith Gymraeg.

b. Adroddiad monitro ar y modd y mae'r Brifysgol yn gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

3. I ystyried a chael awdurdod i gymeradwyo ar ran Gweithrediaeth y Brifysgol:

    a. Darpariaeth hyfforddiant a chyngor i alluogi cydymffurfiaeth sefydliadol â Safonau'r Iaith Gymraeg.

4. I dderbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori Gweithrediaeth y Brifysgol, neu bwyllgor llywodraethol trwy Weithrediaeth y Brifysgol, fel sy'n briodol ar:

    a. Diweddariadau ar y modd y mae'r Brifysgol yn gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.
    b. Cwynion a dderbyniwyd gan y Brifysgol ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Gweithredol mewn perthynas â'r modd y mae'r Brifysgol yn gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.
    c. Camau sydd ar waith yn y Brifysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
    ch. Datblygiadau cenedlaethol mewn perthynas â Safonau'r Iaith Gymraeg, a chefnogi'r Gymraeg yn ehangach.

---

<u>Gweithredu</u>

Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn adroddiadau cyson fel sy'n briodol ar weithgaredd y Grŵp.

Bydd Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg yn rhoi gwybod i'r Grŵp am y gwaith a wneir gan y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.